# Budd-daliadau profedigaeth

Adran Gwaith a Phensiynau

**Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi**
Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, cysylltwch â ni. Gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt drwy chwilio am y budd-dal perthnasol ar **www.gov.uk/cymraeg**

## Cymorth i wragedd gweddw, gwŷr gweddw a phartneriaid sifil sydd wedi goroesi

- Taliad Profedigaeth
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Lwfans Profedigaeth

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys
- rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau profedigaeth
- ffurflen gais am fudd-daliadau profedigaeth.

BB1W Nodiadau 04/22

## Beth yw budd-daliadau profedigaeth?

Defnyddiwn y term budd-dalidau profedigaeth i olygu unrhyw un o'r rhain

- Taliad Profedigaeth
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Lwfans Profedigaeth.

Mae nhw i gyd wedi'u seilio ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) eich priod neu'ch partner sifil.

Mae eich priod neu'ch partner sifil yn golygu'r person yr oeddech yn briod yn gyfreithiol â hwy, neu yr oeddech mewn partneriaeth sifil â hwy, ar adeg eu marwolaeth.

**Ar gyfer pobl sy'n byw neu sydd wedi byw yn yr Alban**
Cysylltwch â ni os ydych yn byw neu wedi byw yn yr Alban ac os nad ydych yn siwr a oeddech yn briod yn gyfreithlon.

## A allaf gael budd-daliadau profedigaeth?

Gallech gael budd-dalidau profedigaeth os oedd eich priod neu'ch partner sifil wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Ni allwch gael budd-dalidau profedigaeth os, ar adeg y farwolaeth

- roeddech wedi ysgaru o'ch priod, neu
- roedd eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu, neu
- roeddech yn byw gyda'ch gilydd fel pe baech yn briod, ond nid yn briod yn gyfreithiol, neu
- roeddech wedi ail briodi neu wedi ffurfio partneriaeth sifil, neu
- roeddech yn byw gyda person arall fel pe baech yn briod.

Bydd y wybodaeth yn y nodiadau hyn yn help i chi weld a allwch gael unrhyw un o'r budd-daliadau profedigaeth.

Gallwch ddod o hyd i ragor am fudd-daliadau profedigaeth ar ein gwefan yn **www.gov.uk/browse/benefits/benefits**

Ond os nad ydych yn siwr a allwch gael budd-dal profedigaeth gwnewch gais beth bynnag.

# Taliad Profedigaeth

Atebwch y 3 cwestiwn hyn i weld a allech gael Taliad Profedigaeth.

| | | |
|---|---|---|
| 1 A oeddech dan oedran pensiwn y wladwriaeth pan fu eich priod neu'ch partner sifil farw? | **Na** | ☐ |
| | **Oeddwn** | ☐ |
| 2 A oedd eich priod neu'ch partner sifil dan oedran pensiwn y wladwriaeth pan fu farw? | **Na** | ☐ |
| | **Oedd** | ☐ |
| 3 A oedd eich priod neu'ch partner sifil dros oedran pensiwn y wladwriaeth a heb hawl i bensiwn sylfaenol yn seiliedig ar eu cyfraniadau eu hunain? Gelwir hyn yn bensiwn categori A. | **Na** | ☐ |
| | **Oedd** | ☐ |

Gallech gael Taliad Profedigaeth

- os ydych wedi ateb Oedd(wn) i o leiaf un o'r cwestiynau hyn, ac
- os oedd eich priod neu'ch partner sifil wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae'r ffordd mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn casglu cyfraniadau YG Dosbarth 2 wedi newid o'r flwyddyn dreth 2015/16.

Mae hyn yn golygu y bydd y cyfraniadau yn cael eu casglu fel rhan o'r Ffurflen Dreth Hunan-Asesiad ar gyfer y mwyafrif o gwsmeriaid ac ni fydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn casglu cyfraniadau YG Dosbarth 2 mwyach yn ystod y flwyddyn dreth. Gallai hyn effeithio ar faint o fudd-dal profedigaeth gallwn dalu i chi.

Gall Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi roi gwybodaeth ar gofnodion YG eich diweddar briod neu bartner sifil ac ynglŷn â thalu cyfraniadau YG Dosbarth 2 i'ch diweddar briod neu bartner sifil ar gyfer pwrpas budd-daliadau. Mae mwy o wybodaeth yn **www.gov.uk/cymraeg**

Os oes gennych hawl i gael Taliad Profedigaeth, caiff ei dalu fel cyfandaliad.

Gallech gael Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Profedigaeth yn ogystal â Thaliad Profedigaeth.

# Lwfans Rhiant Gweddw

Atebwch y cwestiynau hyn i weld a allwch gael Lwfans Rhiant Gweddw.

| | | |
|---|---|---|
| 1 Ydych chi'n gymwys i gael Budd-dal Plant ar gyfer un o'ch plant neu un o blant eich priod neu'ch partner sifil? | **Na**<br>**Ydw** | ☐<br>☐ |
| 2 Ydych chi'n gymwys i gael Budd-dal Plant ond nad ydych yn ei gael oherwydd bod chi neu'ch priod neu bartner sifil diweddar yn perthyn i'r grŵp tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant? | **Na**<br>**Ydw** | ☐<br>☐ |
| 3 A oedd eich priod neu'ch partner sifil yn cael Budd-dal Plant? | **Na**<br>**Oedd** | ☐<br>☐ |
| 4 Os ydych yn fenyw, ydych chi'n feichiog? | **Na**<br>**Ydw** | ☐<br>☐ |

Gallech gael Lwfans Rhiant Gweddw

- os ydych wedi ateb **Ydw/Oedd** i o leiaf un o'r cwestiynau hyn, **ac**
- os oedd eich priod neu'ch partner sifil wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Ond os ydych wedi ateb Na i bob un o'r cwestiynau hyn, gallech gael Lwfans Profedigaeth o hyd.

Os ydych yn gymwys i gael Lwfans Rhiant Gweddw, mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar gyfraniadau YG eich priod neu'ch partner sifil. Gall gynnwys Pensiwn Ychwanegol yn seiliedig ar eu henillion ers 1978. Gall hefyd gynnwys Pensiwn Ychwanegol yn seiliedig ar gyfrifoldebau gofal, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau neu Fudd-dal Analluogrwydd ers mis Ebrill 2002.

Fel arfer gallwch gael Lwfans Rhiant Gweddw cyhyd â'ch bod yn gymwys i gael Budd-dal Plant.

Os ydych yn perthyn i'r grŵp tâl Incwm Uchel Budd-dal Plant ac heb hawlio Budd-dal Plant, rhaid i chi wneud hynny er mwyn i'ch cais am Lwfans Rhiant Gweddw gael ei ystyried.

## Lwfans Rhiant Gweddw parhad

Os ydych yn perthyn i'r grŵp hwn, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM i wneud eich cais.

Os daw eich hawl i Fudd-dal Plant i ben o fewn 52 wythnos ar ôl i'ch priod neu'ch partner sifil farw, gallech gael Lwfans Profedigaeth am weddill y 52 wythnos. Nid yw hyn yn berthnasol i chi os ydych yn ddyn a bu farw eich gwraig cyn 9 Ebrill 2001.

Os oedd eich priod neu bartner sifil diweddar yn hawlio Budd-dal Plant ac heb wneud cais i'w drosglwyddo i'ch enw chi eto, rhaid i chi wneud hynny er mwyn i'ch cais am Lwfans Rhiant Gweddw gael ei ystyried.

Os ydych yn perthyn i'r grŵp hwn, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM i wneud eich cais.

## Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth

- ewch i **www.gov.uk/child-benefit/how-to-claim**
- ffoniwch Linell Gymorth Cyllid a Thollau EM ar **0300 200 3100**. Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 8pm ac ar ddydd Sadwrn rhwng 8am a 4pm. Os oes gennych anawsterau ar eich clyw neu'ch lleferydd ac yn defnyddio ffôn testun, y rhif yw **0300 200 3103**.

# Lwfans Profedigaeth

Atebwch y cwestiwn hwn i weld os gallech gael Lwfans Profedigaeth.

| | | |
|---|---|---|
| 1 A oeddech chi'n 45 oed neu'n hŷn pan fu eich priod neu'ch partner sifil farw? | **Na** | ☐ |
| | **Oeddwn** | ☐ |

Mae'n bosibl y gallwch gael Lwfans Profedigaeth
- os ydych wedi ateb Oeddwn i'r cwestiwn hwn, ac
- os oedd eich priod neu'ch partner sifil wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Os oes hawl gennych i gael Lwfans Profedigaeth, mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar eich oed pan fu farw eich priod neu'ch partner sifil, a chyfraniadau Yswiriant Gwladol eich priod neu'ch partner sifil.

Os oeddech yn 55 oed neu'n hŷn, efallai y cewch gyfradd lawn y Lwfans Profedigaeth. Ond os oeddech dan 55 oed cewch lai na'r gyfradd lawn.

Ni all Lwfans Profedigaeth gynnwys unrhyw Bensiwn Ychwanegol a dim ond ar y gyfradd sylfaenol y caiff ei dalu.

Gallwch gael Lwfans Profedigaeth am 52 wythnos fel arfer. Daw i ben os bydd gennych hawl i gael Pensiwn y Wladwriaeth cyn diwedd y 52 wythnos.

I gael gwybod pryd y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i **www.gov.uk/calculate-state-pension**

Os oeddech yn cael Lwfans Rhiant Gweddw am lai na 52 wythnos, ac y daw i ben am nad oes hawl gennych bellach i Fudd-dal Plant, gallech gael Lwfans Profedigaeth sy'n cael ei dalu ar y gyfradd sylfaenol yn unig
- ar gyfer gweddill y 52 wythnos, neu
- nes y bydd hawl gennych i Bensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

## Sut i wneud cais

Llenwch ffurflen gais **BB1W**.

Mae'n ddrwg gennym fod rhaid i ni ofyn rhai o gwestiynau am eich priod neu'ch partner sifil. Mae hyn am fod budd-dalidau profedigaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich priod neu'ch partner sifil.

Os cewch anhawster i lenwi'r ffurflen gais hon, gall rhywun arall ei llenwi ar eich rhan. Gallwch ofyn i gyfaill, perthynas neu ganolfan gynghori. Neu allwch ofyn yn eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith.

Ond gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi'r datganiad yn **Rhan 7** o'r ffurflen gais, os gallwch.

## Pryd i wneud cais

Dylech anfon ffurflen gais **BB1W** atom cyn gynted â phosibl.

- Mae'n rhaid i chi anfon eich ffurflen o fewn 3 mis y bu farw eich priod neu'ch partner sifil. Gall methiant i wneud hyn effeithio ar eich hawl i fudd-dal.
- Os bu farw eich priod ar neu ar ôl 1 Ebrill 2003 gall eich cais am Daliad Profedigaeth gael ei dderbyn am hyd at 12 mis.
- Os bu farw eich partner sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 gall eich cais am Daliad Profedigaeth gael ei dderbyn am hyd at 12 mis.

# Mwy ynglŷn â budd-daliadau i wragedd gweddw, gwŷr gweddw a phartneriaid sifil sydd wedi goroesi

### A yw enillion yn effeithio ar fudd-daliadau ar gyfer gwragedd gweddw, gwŷr gweddw a phartneriaid sifil sydd wedi goroesi?

Na – os ydych yn gweithio, ni fydd eich budd-dal profedigaeth yn cael ei ostwng oherwydd yr arian yr ydych yn eu hennill.

### A yw budd-daliadau gwragedd gweddw, gwŷr gweddw a phartneriaid sifil sydd wedi goroesi yn drethadwy?

**Taliad Profedigaeth**
Telir y budd-dal hwn fel cyfandaliad ac mae'n ddi-dreth.

**Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Profedigaeth**
Mae'r budd-daliadau hyn yn drethadwy. Os bydd rhaid i chi dalu treth incwm, cânt eu cyfrif fel rhan o'ch incwm wrth gyfrif eich treth incwm.

### Beth sy'n digwydd os oes gennych hawl i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau neu Fudd-dal Analluogrwydd hefyd?

Os ydych yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau neu Fudd-dal Analluogrwydd a

- bod y swm rydych yn ei gael yn llai na'ch budd-dal profedigaeth, neu
- bod eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau yn dod i ben oherwydd eich bod wedi ei gael am 365 diwrnod

ni fyddwch yn colli arian. Byddwn yn talu swm o fudd-dal i chi i sicrhau eich bod yn cael eich hawliad llawn.

Byddwch yn talu treth ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau o'r dyddiad cyntaf rydych yn ei gael.

# Cymorth a chyngor

Os ydych am gael mwy o wybodaeth am fudd-daliadau profedigaeth neu unrhyw fudd-dal arall neu os hoffech gyngor am gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith.

Gallwch ddod o hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn yr hysbyseb yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**.

Gallwch gael pecyn cais budd-daliadau profedigaeth (ffurflen **BB1W**) drwy ffonio **0800 731 0453**. Os oes gennych anawsterau ar eich lleferydd neu'ch clyw ac yn defnyddio ffôn testun, ffoniwch **0800 731 0464**.
Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

Gallwch lawrlwytho pecyn cais yn **www.gov.uk/browse/benefits/bereavement**

Cwblhewch y ffurflen a'i hanfon i gyfeiriad y Ganolfan Byd Gwaith sydd ar y ffurflen gais neu i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith agosaf cyn gynted â phosibl.

## Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad

Mae'n bosibl y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth a ddarperir gennych a gwella ein gwasanaethau. Mae'n bosibl y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

I gael rhagor o wybodaeth am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i **www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**

## Sefydliadau gwirfoddol a allai roi cyngor i chi

- Eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol.
- Cruse Bereavement Care yn cynnig cefnogaeth emosiynol i’r rhai sydd mewn profedigaeth. Gallwch gysylltu â hwy ar

| | |
|---|---|
| Llinell Gymorth | **0808 808 1677** |
| E-bost | **helpline@cruse.org.uk** |
| Gwefan | **www.cruse.org.uk** |

Nid yw’r sefydliad hwn yn gallu rhoi cyngor ar daliadau profedigaeth, budd-daliadau eraill neu faterion ariannol.

Argraffwyd ar bapur sydd wedi'i ailgylchu